| Clwb Beicio'r Rhyl | Costau tuag at y crysau tîm newydd i aelodau'r clwb beicio, oherwydd bod yr ymgyrch nawdd flynyddol yn llai llwyddiannus eleni gyda'r problemau economaidd presennol. Mae'r clwb yn cynnig hyfforddiant i'r safonau uchaf i bobl ifanc ac oedolion ar draws yr ardal, gan hyrwyddo lles, mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a hyrwyddo ymdeimlad o falchder yn y Rhyl. | 2022 | £800 |
| Kind Bay Initiative | Bydd Kind Bay Initiative yn cyflogi Cydlynnydd Celfyddydau a Lles i drefnu gweithgareddau i aelodau'r gymuned leol drwy eu Hwb Cymorth, gan gynnwys gweithdai 'adeiladu sgiliau' gan artistiaid lleol. Bydd y prosiect o fudd i hyd at 63 o bobl leol. | 2022 | £10,000 |
| Canolfan Merched Gogledd Cymru | Bydd Canolfan Merched Gogledd Cymru yn defnyddio'r arian o Gronfa Gymunedol Gwynt y Môr i dalu am gostau craidd y sefydliad am 6 mis, gan gynnwys diogelu swydd y gweinyddwr presennol. Bydd yr arian yn cynorthwyo 300 o ferched o'r ardal leol gyda materion yn ymwneud ag iechyd, lles, a gwaith. | 2022 | £12,000 |
| TAPE | Bydd TAPE yn defnyddio'r arian o Gronfeydd Gymunedol Gwynt y Môr a Gwastadeddau Rhyl i newid eu car Elusenol. Defnyddir y car i gludo gwirfoddolwyr a gweithwyr llawrydd ac offer i brosiectau TAPE, a chynyddu mynediad at wasanaethau TAPE. | 2022 | £12,000 |
| Aberconwy Care & Share | Bydd Aberconwy Care and Share yn defnyddio'r arian o Gronfa Gymunedol Gwynt y Môr i brynu bwyd er mwyn parhau â'u gwaith. Bydd gwirfoddolwyr yn derbyn y bwyd ei bacio a'i ddanfon i bobl leol yn y gymuned sydd ei angen. Bydd y prosiect o fudd i tua 70 o bobl leol. | 2022 | £12,000 |
| Creu Menter | Bydd Creu Menter yn sefydlu 'Youth Shed' newydd yn Llandrillo-yn-Rhos. Byddant yn llogi caban er mwyn treialu'r safle newydd ac yn llogi gweithiwr sesiynol i gefnogi'r gwirfoddolwyr er mwyn hwyluso gweithgareddau i'r 'Shedderz'. Maent yn gobeithio ymgysylltu â hyd at 30 o bobl ifanc. | 2022 | £12,000 |
| Gweithgareddau Byddar Sir Conwy | Bydd Gweithgareddau Byddar Sir Conwy yn cynnal Bore Galw Heibio / Coffi i'r gymuned Fyddar leol, i'w helpu gyda 'gwaith gweinyddol bywyd' megis gwneud | 2022 | £5930 |



| | | | |
|-------------------------------------|--|------|---------|
| | cais am fudd-daliadau a'r gefnogaeth y mae'r hawl iddynt ei dderbyn. Byddant hefyd yn cynnal tripiâu hygyrch i'w haelodau, lle bydd cyfieithydd BSL yn bresennol. Bydd y prosiect o fudd i hyd at 40 aelod o'r gymuned Fyddar leol. | | |
| Siambr Fasnach Conwy | Bydd Siambr Fasnach Conwy yn cynnal Gŵyl y Môr-ladron flynyddol yng Nghonwy fis Mai 2023. Bydd yn benwythnos o weithgareddau ar y thema môr-ladron, gyda'r nod o ddenu twristiaid i Gonwy a'r ardaloedd cyfagos, ac arddangos yr holl fusnesau lleol. | 2022 | £10,000 |
| Love North Wales | Bydd Love North Wales yn defnyddio'r arian o Gronfa Gymunedol Gwynt y Môr i dalu am rentu uned a chostau rhedeg fan. Bydd hyn yn eu galluogi i gefnogi pobl leol trwy gael mynediad at fwyd, dillad a dodrefn. Bydd y fan yn cael ei defnyddio i godi a danfon dodrefn i'r teuluoedd sydd ei angen. | 2022 | £12,000 |
| Canolfan Gymunedol Bae Colwyn Uchaf | Derbyniodd Canolfan Gymunedol Bae Colwyn Uchaf gyllid gan Gronfa Gymunedol Gwynt y Môr i helpu i dalu am werth 6 mis o filiau nwy. Dyma'r cyntaf i dderbyn Grant Argyfwng Ynni Gwynt y Môr a bydd yn helpu i gadw'r ganolfan ar agor er mwyn gallu darparu lle i'r gymuned a hwyluso digwyddiadau cymunedol. | 2022 | £5000 |
| Abergele Community Action | Cafodd elusen Gweithredu Cymunedol Abergele gyllid gan Grant Argyfwng Ynni Gwynt y Môr i helpu i dalu am y biliau trydan yn eu canolfan yn Abergele & Pensarn. Bydd y cyllid hwn yn caniatáu i Weithredu Cymunedol Abergele i barhau i ddarparu ei wasanaethau Banc Bwyd a Chynghori Ariannol Cymunedol i bobl leol. | 2022 | £4000 |
| Junction Ukes | Yn dilyn Covid-19, mae sawl grŵp iwcailili lleol wedi methu â chyfarfod ac heb ddod nôl at ei gilydd. Derbyniodd Junction Ukes arian i gynnal digwyddiad Gŵyl Iwcailili undydd yng Nghyffordd Llandudno i ddod â cherddorion lleol at ei gilydd gan greu cerddoriaeth, a dathlu dod drwy'r pandemig. | 2023 | £2000 |
| Lyfrgell Gymunedol Bae Penrhyn | Dyfarnwyd Grant Argyfwng Ynni i Lyfrgell Gymunedol Bae Penrhyn i dalu rhai o'u costau ynni. | 2023 | £2000 |



| | | | |
|--|---|------|----------|
| Sied Dynion Abergele | Derbyniodd Sied Dynion Abergele arian gan Gwynt y Môr ar gyfer offer diogelwch tân. Roedd yr offer hwn yn hanfodol i'r grŵp ailddechrau cyfarfodydd ar ôl Pandemig Covid-19, fel y byddai'r grŵp yn barod ar gyfer argyfwng. | 2023 | £3045.91 |
| Clwb Nofio Dolffiniaid y Rhyl | Dyfarnwyd cyllid i Glwb Nofio Dolffiniaid y Rhyl gan Gwynt y Môr ar gyfer Ffioedd Nofio Cymru ar gyfer Gwirfoddolwyr y Clwb ac Amser Dŵr yng Nghanolfan Hamdden y Rhyl. Yn ystod Pandemig Covid-19, cynyddodd ffioedd y pwll, felly bu'n rhaid i'r grŵp dorri'n lar sesiynau. Bydd y cyllid yn caniatáu i'r clwb gynnal ei nifer presennol o sesiynau ar gyfer ei 87 aelod gweithgar. | 2023 | £2604 |
| Uned Diogelwch Trais yn y Cartref (DASU) | Dyfarnwyd cyllid i Uned Diogelwch Trais yn y Cartref (DASU) gan Gwynt y Môr i gyflogi gweithiwr cymorth i weithio yn eu gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc. Bydd y gweithiwr cymorth hwn yn gweithio gyda phlant ar draws siroedd Conwy a Dinbych sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin domestig, sy'n byw yn lloches DASU a/neu'n defnyddio eu gofod cymunedol. | 2023 | £12,000 |
| Côr Bach Tremeirchion | Derbyniodd Côr Bach Tremeirchion Grant Micro i gynnal digwyddiad yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy. Maen nhw'n gobeithio y bydd tua 165 o bobl yn mynychu'r cyngerdd. | 2023 | £700 |
| TAPE | Derbyniodd TAPE Grant Micro ar gyfer Ramp Mynediad Cadair Olwyn i'w osod mewn cerbyd a brynwyd yn ddiweddar. Roedd y fan, a oedd hefyd yn cael ei hariannu gan Gwynt y Môr, angen mynediad cadair olwyn i sicrhau bod gwasanaethau TAPE yn hygyrch i gynifer o bobl â phosibl. | 2023 | £1000 |
| Clwb Bowlio Bryn Newydd | Derbyniodd Clwb Bowlio Bryn Newydd arian gan Gwynt y Môr i osod system ddyfrhau awtomatig ar eu lawnt fowlio. Bydd y system hon yn galluogi'r clwb i arbed arian ar eu biliau dŵr drwy leihau eu defnydd o ddŵr a dod yn fwy ecogyfeillgar. | 2023 | £9000 |
| Clwb Bowlio Abergele | Derbyniodd Clwb Bowlio Abergele arian gan Gwynt y Môr i brynu peiriant torri gwair newydd. Bydd hyn yn eu galluogi i gynnal arwyneb chwarae o safon uchel i'r clwb, a pharhau i gynnal gemau i ferched, dynion ac ieuenctid Cymru yn erbyn timau sirol | 2023 | £8890.60 |



| | | | |
|--|--|------|---------|
| | Lloegr. | | |
| Hope Restored | Bydd Hope Restored yn defnyddio'r arian o Gronfa Gymunedol Gwynt y Môr i barhau â'u Gwaith: helpu pobl yn y gymuned trwy ddarparu bwyd, offer hanfodol, a chefnogaeth iddynt. | 2023 | £12,000 |
| Clwb Hwyllo Conwy | Derbyniodd Clwb Hwyllo Conwy arian gan Gwynt y Môr i adnewyddu'r cwch gwarchod y mae'r clwb yn ei redeg. Mae'r clwb yn gweld yr adnewyddiad hwn fel cyfle i gryfhau ei cysylltiadau ag Adran Technoleg Forol Coleg Llandrillo. Bydd o leiaf dau fyfyrwr, sy'n astudio Cwrs City and Guilds 2473 mewn Peirianeg Forol yng Ngholeg Llandrillo, yn gweithio i adnewyddu'r cwch. | 2023 | £4700 |
| Prestatyn yn ei Blodau | Derbyniodd Prestatyn yn ei Blodau arian i dalu am blanhigion a deunyddiau i gymryd rhan yn Cymru yn ei Blodau a Prydain yn ei Blodau. Maen nhw'n bwriadu gwneud gwelliannau i ardaloedd o amgylch Prestatyn, gan gynnwys 'Coronation Gardens', lle maen nhw'n bwriadu plannu perllan gymunedol. | 2023 | £5333 |
| Gofal Plant Penyffordd a Ffynnongroyw | Bydd Gofal Plant Penyffordd a Ffynnongroyw yn defnyddio'r arian o Gronfa Gymunedol Gwynt y Môr i ariannu rhannau hanfodol o'u gwasanaeth, fel na fydd yn rhaid iddynt gynyddu ffioedd gofal plant i'r rhieni yn ystod yr argyfwng costau byw. Byddant hefyd yn darparu grŵp plant bach am ddim, ddwywaith yr wythnos. | 2023 | £10,500 |
| Strafagansa Llandudno | Derbyniodd Strafagansa Llandudno arian i dalu am Wyl 'Ymylol' yn nigwyddiad Strafagansa Llandudno 2023. | 2023 | £12,000 |
| Homestart Conwy | Dyfarnwyd cyllid i Homestart Conwy gan Gronfeydd Cymunedol Gwynt y Môr a Gwastadeddau'r Rhyl i gyflogi gweithiwr ieuencid. Mae'r cyllid hwn i dalu am barhad swydd y Gweithiwr Ieuencid, sy'n cynnwys cynnal gweithgareddau a chyrsgiau i blant lleol o stad Tan Lan. | 2023 | £12,000 |
| Cymdeithas Hen Dractorau Dyffryn Clwyd | Derbyniodd Cymdeithas Hen Dractorau Dyffryn Clwyd Grant Micro i gynnal eu trelar / swyddfa symudol a'i gwneud hi'n gyfreithlon i fod ar y ffordd eto. | 2023 | £994 |



| | | | |
|---------------------------------|--|------|----------|
| Festival Church Towyn | Bydd Festival Church, Tywyn yn gosod cegin newydd. Doedd ei hen gegin ddim yn cyrraedd safonau diogelwch bwyd Swyddog Iechyd yr Amgylchedd. Bydd cegin newydd yn ei galluogi i weini bwyd i'r gymuned. Mae'r prosiect hwn yn cael cymorth gan Gronfa Gymunedol Gwastadeddau'r Rhyd hefyd. | 2023 | £12,000 |
| Clwb Dringo Conwy Monkeys | Bydd Clwb Dringo Conwy Monkeys yn rhedeg gweithgareddau haf i blant rhwng 6 a 18 oed sydd ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig (ASD), anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD), ac anghenion ychwanegol eraill (wedi'u diagnosio a heb eu diagnosio), a'u teuluoedd. Mae'n gobeithio rhedeg gweithgareddau dringo creigiau, chwaraeon padlo neu gerdded ar hyd ceunentydd. Bydd hefyd yn gallu talu rhywfaint o'i gostau lleoliad a marchnata ar gyfer y flwyddyn nesaf, diolch i Gwynt y Môr. | 2023 | £3590 |
| Clwb Marchogaeth Lloc a'r Cylch | Bydd Clwb Marchogaeth Lloc a'r Cylch yn prynu cynhwysyddion i storio eu cyfarpar neidio a digwyddiadau. Bydd hefyd yn prynu dyfeisiau tabled a Wi-Fi symudol ar gyfer gwaith gweinyddol, a fydd yn helpu digwyddiadau cystadlaethau i redeg yn ddiraffferth. | 2023 | £9106.92 |
| Yr Academi Frenhinol Gymreig | Bydd yr Academi Frenhinol Gymreig yn rhedeg sesiynau celf hygyrch mewn partneriaeth â Cyswllt Conwy a Celfyddydau Anabledd Cymru. Bydd y gweithdai'n galluogi oedolion ag anableddau deallusol a namau corfforol i fagu hyder yn creu celf ac yn ymweld ag arddangosfeydd. Bydd yr Academi Frenhinol Gymreig yn cynnal arddangosfa o'r gwaith ar ddiwedd y prosiect. | 2023 | £5700 |
| Dyfodol Disglair | Bydd Dyfodol Disglair yn prynu bws mini i'w rannu. Bydd sefydliadau nid-er-elw lleol eraill yn gallu benthyg y bws mini ar gyfer eu gweithgareddau, gan gynnwys ymarfer chwaraeon a chludo gwirfoddolwyr i gyfarfodydd neu ddigwyddiadau. | 2023 | £41,649 |
| Joshua Tree | Bydd Joshua Tree yn defnyddio'r arian i gyflogi Gweithiwr Cymorth i Deuluoedd ac ar gyfer sesiynau cymorth. Bydd y prosiect hwn yn cefnogi 65 o deuluoedd y mae canser yn ystod plentyndod wedi effeithio arnynt, dim ots beth yw eu cefndir, a hynny ar draws cymunedau arfordirol Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint. | 2023 | £42,859 |



| | | | |
|--|---|------|----------|
| Neuadd Bentref Llanellian | Bydd Cymdeithas Gymunedol Llanellian yn defnyddio arian Gwynt y Môr i adeiladu neuadd bentref newydd. Adeilad dros dro sydd yno ar hyn o bryd ac mae wedi cyrraedd diwedd ei oes. Mae'r Gymdeithas yn gobeithio y bydd yr adeilad newydd yn hygyrch i bawb, a fydd yn annog grwpiau cymunedol newydd i ddefnyddio'r cyfleuster. | 2023 | £60,000 |
| Cyfeillion Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Bodnant | Bydd Cyfeillion Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Bodnant yn defnyddio'r arian i brynu rhywfaint o 'Siediau Dysgu' i ardal awyr agored yr ysgol. Maen nhw'n gobeithio llenwi'r siediau ag offer dysgu ac adnoddau rhyngweithiol i helpu plant i ddatblygu sgiliau dysgu annibynnol. Bydd y siediau'n cael eu defnyddio gan ddisgyblion yr ysgol, Clwb Brecwast ac ar ôl Ysgol Bodnant Bach, a'r clwb gwyliau 'Bwyd a Hwyl'. | 2023 | £7149.95 |
| Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig | Bydd Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yn estyn allan at gleifion hŷn â dementia mewn ysbytai a chartrefi gofal lleol drwy ddangos arteffactau o'r amgueddfa iddynt ac adrodd eu hanes. Mae'n bosib y bydd y cleifion wedi gweld yr arteffactau pan oeddent yn blant. Bydd y sesiynau dangos a dweud yn cynnwys dehonglwyr mewn gwisgoedd o gyfnod yr Ail Ryfel Byd yn siarad am y cyfnod, gan ddangos arteffactau o'r cyfnod ac arwain trafodaeth arnynt. | 2023 | £4000 |
| Clwb Cyfeillion Trelawnyd | Bydd Clwb Cyfeillion Trelawnyd yn defnyddio'r arian i dalu i logi bysiau am deithiau i leoliadau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i'w aelodau. Mae'n gobeithio lleihau ynysigrwydd cymdeithasol yn y gymuned a bydd yn talu am siaradwyr i'w cyfarfodydd misol i siarad am bynciau sy'n bwysig iddynt. | 2023 | £2000 |
| Clwb Clyd y Rhyl | Bydd Clwb Clyd y Rhyl yn defnyddio'r arian i logi ei ystafell gyfarfod wythnosol am y ddwy flynedd nesaf. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd i'r clwb ac yn ei alluogi i barhau i redeg sesiynau i wneud i bobl hŷn deimlo'n llai ynysig. | 2023 | £4796.00 |
| Siambwr Fasnach Conwy | Bydd Siambwr Fasnach Conwy'n trefnu Parêd Môr-forynion Conwy: digwyddiad yn ystod haf 2023 a fydd yn dathlu dros 900 mlynedd o hanes Conwy. Bydd yn adrodd hanes chwedlonol y pysgotwyr a ddaliodd môr-forwyn yn Afon Conwy. | 2023 | £3750.00 |



| | | | |
|--|---|------|------------|
| Babi Actif | Bydd Eryri Bywiol yn parhau i redeg sesiynau ar gyfer ei brosiect Babi Actif, sy'n helpu rhieni i fod yn egniol a threulio amser yn yr awyr agored yn ystod 1000 diwrnod cyntaf eu plentyn. Ymysg y gweithgareddau mae'n ei redeg mae ysgol y goedwig i fabis, ymarfer ôl-enedigol yn yr awyr agored, a theithiau cerdded sy'n addas i fygis. | 2023 | £60,000.00 |
| Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Gwrych | Bydd Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Gwrych yn defnyddio'r arian i gyflawni prosiect adfer ar gyfer y Llaethdy, sy'n rhan o gyfateilad 200 mlwydd oed y castell. Ar ôl cyflawni'r prosiect, bydd yn fan y bydd y gymuned yn gallu ei ddefnyddio. | 2023 | £60,000.00 |
| Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff | Bydd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff yn cynnal ffair haf i'r gymuned. Bydd croeso i bawb! | 2023 | £750.00 |
| Together for Colwyn Bay | Cafodd Together for Colwyn Bay gyllid i gynnal Cwrs Golygu Fideo am 6 wythnos ar gyfer pobl ifanc 11-17 oed. | 2023 | £1000.00 |
| Seren Superstars | Dyfarnwyd cyllid i Seren Superstars Preschool i adnewyddu eu hardal chwarae. Maent yn bwriadu cynnwys y gymuned leol mewn prosiect plannu coed a thyfu bwyd. | 2023 | £1000.00 |
| Clwb Bowlio Copperfields | Derbyniodd Clwb Bowlio Copperfields Grant Argyfwng Ynni i gynorthwyo gyda chostau trydan cynyddol. | 2023 | £719.17 |
| Capel Peniel | Bydd Capel Peniel yn newid y ffenestri a fframiau'r ffenestri i'w wneud yn lle mwy cysurus i'r grwpiau cymunedol sy'n ei ddefnyddio ac i wella effeithlonrwydd ynni'r adeilad. Mae'r Capel wedi bod yn rhan o'r gymuned ers 1888. | 2023 | £12,000 |
| HomeStart Cymru | Bydd Home-Start Cymru'n cyflogi cydlynedd a staff gwirfoddoli i gyflawni cam nesaf ei Brosiect Iechyd Meddwl Cymheiriaid. Bydd yn cynnig cymorth 1:1 yn y cartref i deuluoedd lleol i wella eu hiechyd meddwl a lles y teulu. | 2023 | £43,511 |



| | | | |
|--|--|------|------------|
| Clwb Bowlio'r Rhyl | Bydd Clwb Bowlio'r Rhyl yn defnyddio'r arian i osod system paneli solar newydd yn ei lle. Bydd y system newydd yn helpu i leihau biliau ynni'r clwb, yn helpu i gynnal bodolaeth hirdymor y clwb a hefyd yn helpu'r clwb i ddatgarboneiddio. | 2023 | £13,080 |
| Work in Progress | Bydd Work in Progress yn defnyddio'r arian ar gyfer costau rhedeg cyffredinol y grŵp ac i ariannu rhannau o'u 'Rhannu Cyhoeddus' – arddangosfa o waith y grŵp yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. | 2023 | £5,953.26 |
| Dragon Riders | Bydd Dragon Riders yn defnyddio'r arian i roi wyneb newydd ar eu trac BMX yn Nhraciau Marsh yn y Rhyl. Nod Dragon Riders yw rhoi cyfle i bobl ar incwm isel ddatblygu sgiliau newydd, ymarfer a mwynhau camp sy'n hygyrch iawn i'r rhai mwy breintiedig mewn cymdeithas. | 2023 | £13,153.58 |
| Menter Iaith Fflint a Wrecsam | Bydd Menter Iaith Fflint a Wrecsam yn cynnal sesiynau llawn hwyl i deuluoedd yn Nhreflogan, Ffynnongroyw a Gronant. Gallai'r gweithgareddau gynnwys sesiynau fel 'Drymio Jync', gweithdy Lego, dawnsio gwerin, gweithdy celf, cofnod teulu neu daith natur. | 2023 | £5,623.10 |
| Fforwm Treftadaeth Gogledd Ddwyrain | Bydd Fforwm Treftadaeth Gogledd Ddwyrain Cymru yn digideiddio ac yn catalogio casgliad o gardiau post, negatiffau gwydr gwreiddiol a ffotograffau teuluol yn ymwneud â'r ffotograffydd Edwardaidd diweddar, J T Burrows, a oedd wedi'i leoli ym Mhrestatyn ac y mae ei waith yn cynnwys y dref a'r cyffiniau. Rhoddwyd y casgliad i'r fforwm yn ddiweddar. | 2023 | £13,006.04 |
| Ambiwllans Sant Ioan Cymru | Yn 2022 derbyniodd sefydliad Ambiwllans Sant Ioan Cymru grant o Gronfa Gymunedol Gwynt y Môr i gyflwyno ei Raglen Hyfforddiant Sgiliau Achub Bywyd yn y Gymuned. Ar ôl cwblhau'r prosiect yn llwyddiannus, bydd yn defnyddio'r cyllid pellach hwn i barhau â'r hyfforddiant cymunedol ac i adeiladu ar y berthynas waith mae wedi'i sefydlu ag ysgolion lleol a grwpiau cymunedol. | 2023 | £10,000 |
| Gwasanaeth Cam-drin Domestig Aberconwy | Bydd Gwasanaeth Cam-drin Domestig Aberconwy yn defnyddio'r cyllid i dalu costau llogi ystafelloedd a goruchwyllo, a fydd yn ategu eu gwasanaeth cwnsela. | 2023 | £24,850 |



| | | | |
|--|--|------|------------|
| (ADAS) | | | |
| EESW – Cynllun Addysg Beirianeg Cymru | Bydd y prosiect hwn yn cysylltu myfyrwyr chweched dosbarth o ysgolion o fewn y rhanbarth a ariennir gan Gwynt y Môr i weithio ar broblem beirianeg real dros gyfnod o chwe mis. Bydd gofyn i'r myfyrwyr weithio gyda'i gilydd i gynhyrchu datrysiad i friff y prosiect, a fydd wedi'i osod gan beiriannydd gyda'r thema'n ymwneud â chynaliadwyedd neu'r amgylchedd. | 2023 | £12,500 |
| Cylch Chwarae Trelogan | Bydd Cylch Chwarae Trelogan yn defnyddio'r arian i dalu am redeg y Cylch Chwarae o ddydd i ddydd am 12 mis. | 2023 | £16,458.31 |
| Canolfan Dewi Sant | Bydd Canolfan Dewi Sant yn parhau â'i Chinio Cymunedol a'r Brinio Cymunedol, sydd wedi cael eu cynnig ers mis Medi 2022. | 2023 | £14,611.97 |
| Hwb Wcraïn Prestatyn a Galltmelyd | Bydd Hwb Prestatyn a Galltmelyd yn defnyddio'r arian i dalu costau rhedeg am 12 mis, a fydd yn caniatáu iddynt gefnogi teuluoedd o Wcraïn yn yr ardal. | 2023 | £1,000 |
| Guides 1af Llandudno | Bydd Guides 1 ^{af} Llandudno yn cynorthwyo gyda chost eu gweithgareddau drwy brynu offer, gwsg a llyfrau bathodynau. | 2023 | £300 |
| Ymddiriedolaeth Canolfan Gymunedol Talacre | Bydd Ymddiriedolaeth Canolfan Gymunedol Talacre yn prynu system PA a thaflunydd newydd i'w galluogi i gynnal mwy o ddigwyddiadau cymunedol. | 2023 | £900 |
| Gwasanaeth Cyfieithu Byddar Conwy | Bydd Gwasanaeth Cyfieithu Byddar Conwy yn talu i fyfyrwyr gael mynediad at Hyfforddiant Sgiliau Iaith Arwyddion Dwyieithog Lefel 4. Bydd y myfyrwyr wedyn yn gallu cefnogi pobl Fyddar leol gydag apwyntiadau a lleihau straen a phryder i bobl fyddar wrth ddelio â phobl sy'n clywed, i fynd i'r afael â'u materion personol. | 2023 | £5,000 |
| Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i dalu am gyflogau a chostau rhedeg am 2 flynedd. Bydd hyn yn caniatáu i'r Siop Cyngor ar Fudd-daliadau barhau i gynyddu incwm pobl drwy ddarparu cyngor, cefnogaeth a chynrychiolaeth ar bob agwedd o'r System Budd-dal Lles. | 2023 | £27,268 |



| | | | |
|--|--|------|------------|
| Clwb Bowlio Craig y Don | Bydd Clwb Bowlio Craig y Don yn gosod system ddyfrio awtomatig ar gyfer y lawnt. Roeddent wedi colli'r cyfle i gynnal cystadleuaeth o'r blaen oherwydd cyflwr gwael y lawnt. Bydd y system ddyfrio newydd hon yn galluogi'r clwb i gynnal y lawnt i safon dda. | 2023 | £15,476 |
| Treffynnon sy'n Ystyriol o Oedran a Dementia | Bydd Treffynnon sy'n Ystyriol o Oedran a Dementia yn rhedeg Rhaglen Ymgysylltu Rhyngwladol, gan weithio gydag ysgolion cynradd ym Mostyn, Pen-y-ffordd a Phicton i gefnogi pobl hŷn yn y gymuned. | 2023 | £6240 |
| Y Ganolfan Arwyddo-Golwg-Sain | Bydd y Ganolfan Arwyddo-Golwg-Sain yn defnyddio cyllid Gwynt y Môr i gyflogi Swyddog Addysg a Hyfforddiant Plant. Bydd y swyddog yn darparu hyfforddiant Iaith Arwyddion a Makaton, a hyfforddiant ymwybyddiaeth o fod yn fyddar. | 2023 | £6,000 |
| Sefydliad Crusaders Gogledd Cymru | Nod Sefydliad Crusaders Gogledd Cymru yw sefydlu ymyriad i alluogi pobl ifanc fregus i ddefnyddio Rygbi'r Gynghrair fel cyfrwng i newid ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau. Bydd yr ymyriad hwn yn cael ei roi ar waith drwy raglen 40 wythnos. | 2023 | £24,726 |
| Junction Ukes | Bydd Junction Ukes yn cynnal gŵyl 'Junction Uke Fest 2024', gŵyl am ddim i'r gymuned yng Nghyffordd Llandudno ym mis Mehefin 2024. | 2023 | £2000 |
| Clwb Bowlio Conwy | Bydd Clwb Bowlio Conwy yn gosod system ddyfrio awtomatig ar gyfer y lawnt, a fydd yn caniatáu iddynt barhau i ddarparu cyfleoedd chwaraeon i bobl leol. | 2023 | £23,760 |
| Clwb Pêl-droed Llanelwy | Bydd Clwb Pêl-droed Llanelwy yn gosod ffens rhwyll weldiad o amgylch y cae i ddiogelu'r arwyneb chwarae, gan ei gynnal a'i gadw i safon dda ar gyfer y gymuned. | 2023 | £18,300 |
| Clwb Bowlio Hen Golwyn | Bydd Clwb Bowlio Hen Golwyn yn gosod system ddyfrio awtomatig ar gyfer y lawnt, a fydd yn galluogi'r clwb i ddod yn fwy cynaliadwy. | 2023 | £19,184.20 |
| Grŵp Wisdom of trauma | Bydd y Grŵp Wisdom of Trauma yn defnyddio'r cyllid i gynnal gweithgareddau i gefnogi pobl sy'n byw gyda thrawma plentynod. Gallai'r gweithgareddau hyn | 2023 | £12,933 |



| | | | |
|---|--|------|------------|
| | gynnwys therapi, cylchoedd gwrando, ac addysg seico. | | |
| Cyswllt Conwy ar gyfer Anableddau Dysgu | Bydd Cyswllt Conwy ar gyfer Anableddau Dysgu yn defnyddio'r arian i gefnogi eu prosiect côr Sing and Sign a chyflogi tiwtor Makaton cymwys. | 2023 | £25,000 |
| Festival Church, Hen Golwyn | Bydd Festival Church Hen Golwyn (Eglwys Sure Hope) yn adnewyddu'r ystafelloedd cymunedol ar y safle i'w gwneud yn 'addas i'r diben'. Maen nhw hefyd yn bwriadu ail-agor y caffi cymunedol. | 2023 | £25,000 |
| Clwb Pêl-droed Alltmelyd | Mae'r cyllid hwn yn rhan o brosiect mwy i adnewyddu'r cae glaswellt a phrynu offer cynnal a chadw, gyda chefnogaeth Sefydliad Pêl-droed Cymru, Chwaraeon Cymru a North Hoyle. | 2023 | £25,000 |
| Eglwys Fethodistaidd Sant Ioan, Llandudno | Bydd Eglwys Fethodistaidd Sant Ioan yn gosod drysau mynediad botwm gwthio yn yr adeilad i'w wneud yn fwy hygyrch. | 2023 | £14,006.40 |
| Ymddiriedolaeth Gymunedol Talacre | Bydd Ymddiriedolaeth Gymunedol Talacre yn defnyddio'r arian i adnewyddu rendrad allanol y ganolfan gymunedol. | 2023 | £24,478.90 |
| Festival Church, Prestatyn | Bydd Festival Church Prestatyn yn gwneud eu hadeilad yn fwy hygyrch drwy ledw drysau a gosod lifft grisiau a thoiled hygyrch. | 2023 | £10,290 |
| Clwb Athletau Bae Colwyn | Bydd Clwb Athletau Bae Colwyn yn prynu offer Mesur Pellter Electronig (EDM) ar gyfer digwyddiadau maes - gwaywffon, disgen, peli trwm, a morthwyl. | 2023 | £4,284 |
| Clwb Pêl-droed Gronant | Bydd Clwb Pêl-droed Gronant yn defnyddio'r arian i wella'r safle a'r cae, gan eu cynnal i safon dda ar gyfer y gymuned. | 2023 | £25,000 |
| Clwb Bocsio Amatur Clwyd | Dyfarnwyd arian i Glwb Bocsio Amatur Clwyd i brynu cit newydd. Sefydlwyd y clwb yn 1989, gyda'r nod o ddarparu sesiynau bocsio am ddim i aelodau'r gymuned. | 2023 | £989 |



| | | | |
|--------------------|--|------|-------|
| Elusen Aloud | Bydd Elusen Aloud yn cynnal ymarfer rhanbarthol Only Boys Aloud yng Nghanolfan ASK yn y Rhyl. Byddant yn agor yr ymarfer i'r gymuned ehangach er mwyn iddynt gael profiad o ganu gyda'r côr ac efallai ymuno yn y dyfodol. | 2023 | £1000 |
| Hen Ysgol Llanrhos | Bydd Hen Ysgol Llanrhos yn uwchraddio'r system wresogi. Bydd hyn yn galluogi'r Pwyllgor i gynnal lleoliad cymunedol i'w logi. | 2023 | £1000 |